

Cyfle i Aros



rhwydwaith maethu
llais gofali maeth
the fostering network
the voice of foster care




**action for
children**
gweithredu
dros blant

Yn eu geiriau eu hunain

“Weithiau, pan fo pethau’n wirioneddol anodd, rwy’n teimlo fel gwneud rhywbeth gwirion, wyddoch chi? Rwy’n teimlo fel cyflawni trosedd fach, dim byd mawr, dim ond rhywbeth digon mawr i fy rhoi mewn carchar. O leiaf mewn carchar, fe wyddoch y byddai gennych yn wastad gwmni, pobl o’ch cwmpas chi a rhywun i roi pryd o fwyd ichi. Weithiau, rwy’n meddwl y byddai hynny’n well na hyn.”

Mae C, 16 oed, yn awr yn byw mewn llety â chymorth ac roedd gynt mewn gofal maeth.

“Dwi’n pryderu amdano yn awr. Dwi’n dda i ddim ar fy mhen fy hun; mae arnaf angen pobl y gallaf ymddiried ynddyn’ nhw o fy nghwmpas i. Mae plant mewn gofal yn gofidio am bethau fel hyn drwy’r amser, er pan oeddech yn wirioneddol ifanc, rydych yn gwybod ei fod yn dod ac mae o’n wirioneddol yn codi ofn. Ni fedraf byth ei wneud o, ddim o gwbl.”

Mae A, 14 oed, yn byw gyda theulu maeth.



“Fel rydych yn mynd yn hŷn, mae’n rhaid ichi ddechrau meddwl am symud allan pan ydych yn 16. Mae’n beth mawr i rai pobl, mae yna gymaint o straen ar eich ysgwyddau pan na ddylai fod felly. Rydych yn 16, yn dal i fod yn blentyn. Mae’ch Cynorthwydd Personol, gweithwyr Cam Nesaf, Gweithwyr Cymdeithasol ar eich cefn drwy’r amser ynglŷn â symud allan a mynd i le byw â chymorth. Rydym yn cael ein rhuthro o ofal pan ydym yn 16. ‘Dydi o ddim yn deg! Mae bod mewn gofal maeth i fod i fod fel teulu.”

Mae C, 15, yn byw gyda theulu maeth.

“Fe fyddwn yn falch o aros yn fy lleoliad tan fy mod yn barod i adael. Mae bod heb yr opsiwn i aros tan fy mod yn 21 yn dod â straen a gorbryder. Peidio â chael rhwyd ddiogelwch a bod yn gallu dibynnu ac ymddiried yn rhywun yw’r agwedd allweddol [...]. O ble’r ydw i’n mynd i gael bwyd? Sut fedraf i fforddio prynu côt aeaf? Mae’r rhain yn faterion rwyf yn teimlo NA ddylai person ifanc orfod pryderu amdanynt. Rwyf yn teimlo y disgwylid imi dderbyn y ffaith fy mod wedi gorfod tyfu i fyny ac aeddfedu yn eithriadol er pan oeddwn yn 15 oed. Mae’n anodd peidio â chymharu’ch hun gyda’ch cyfeillion, sydd â theulu cariadus a chefnogaeth pryd bynnag y bydd arnyn’ nhw ei angen o.”

Mae E, 19 oed, yn byw gyda theulu maeth ac yn paratoi i fyw’n annibynnol.

Mae’r holl ddyfyniadau a hanesion yn yr adroddiad hwn gan bobl ifanc mewn gofal maeth, pobl sydd wedi gadael gofal maeth a gofalwyr maeth yng Nghymru.



01 Crynodeb

“Mae’r sawl sy’n gadael gofal yn rhy aml yn cael eu gorfodi i fod yn annibynnol yn rhy gynnar.”

Mae pobl ifanc sy’n gadael gofal maeth yng Nghymru yn aml yn gadael rhwng 16 a 18 oed. Yr oed cyfartalog ar gyfer gadael cartref yn y Deyrnas Unedig yw 24.

Nid yw pobl ifanc mewn gofal yn aml yn cyrraedd yr un lefel o ddatblygiad erbyn yr un oedran â’u cyfoedion. Mae hyn oherwydd y trawma ac anawsterau maent wedi’u profi yn eu bywydau.

“Yn emosiynol, serch hynny, nid oeddwn yn barod i adael a byw ar fy mhfen fy hun. Roeddwn yn hunan-niweidio, yn encilgar ac ni fyddwn yn siarad rhyw lawer gyda phobl.” K, 36

Nid ydynt yn barod i adael pan fônt yn gwneud, ac maent yn ymlafnio i lwyddo ar eu pen eu hunain. Mae pobl ifanc sy’n gadael gofal yn fwy tebygol o fod â salwch meddwl, o fod yn ddigartref, o fod yn camddefnyddio sylweddau, o fod yn ddiwaith neu o fod yn y carchar. Maent yn 4 gwaith yn fwy tebygol o ladd eu hunain pan fyddant yn oedolion.

Pe bae’r bobl ifanc hyn wedi cael mwy o amser gyda’u gofalwyr maeth i ddatblygu’r sgiliau y mae arnynt eu hangen i fyw’n annibynnol, fe fyddai ganddynt lawer gwell siawns o lwyddo. Mae pobl ifanc yn dweud wrthym fod cael person sefydlog y gallwch ymddiried ynddo a dibynnu arno yn gwneud byd o wahaniaeth.

“Dwi’n gwybod fy mod yn ffodus ... fyddwn i ddim mewn coleg na dim gan na fyddai gen i neb yn gefn imi.” D, 20

Mae ymchwil yn dweud bod pobl ifanc yn gwneud yn llawer gwell pan fyddant yn oedolion pan fônt yn medru aros gyda’u partneriaid maeth yn hwy. Maent yn fwy tebygol o gael cymwysterau, yn llai tebygol o gamddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill, yn llai tebygol

o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn llai tebygol o gael eu harestio neu o fod yn y carchar.


Mae cynorthwyo'r bobl ifanc hyn i aros gyda'r gofawyr maeth yn hwy yn arbed arian yn y pen draw. Os gwnawn gynorthwyo pobl ifanc drwy roi'r cyfleoedd a'r offer iddynt y mae arnynt eu hangen i lwyddo, maent yn fwy tebygol o fod yn oedolion hapus, gweithgar sy'n iach ac mewn gwaith.

Fe amcangyfrifir fod hyn yn costio £1.1 filiwn y flwyddyn. Mae'r gost gynyddol o beidio â gwneud hyn a pharhau i roi pobl ifanc ar lwybr methiant yn llawer gwaith mwy.

Mae Action for Children – Gweithredu dros Blant a Rhwydwaith Maethu Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y gyfraith, a rhoi cyfle teg i'r bobl ifanc hyn mewn bywyd.

Os hoffech ganfod mwy am yr ymgyrch neu neu gymorth i ddarbwyllo Llywodraeth Cymru i newid y gyfraith, a fydddech cystal â mynd i:

www.actionforchildren.org.uk/chancetostay
neu www.fostering.net/wales/chancetostay



02 Rhagymadrodd

Fe ddisgwylir yn aml i bobl ifanc diymgeledd mewn gofal fyw'n annibynnol yn gyflymach na'u cyfoedion, a gadael gofal yn 16,17 neu'n 18. Yr oed cyfartalog ar gyfer gadael cartref yn y Deyrnas Unedig yw 24ⁱ.

Nid yw llawer o bobl ifanc mewn gofal yn cyrraedd yr un lefel o ddatblygiad â'u cyfoedion erbyn yr un oed. Fe all y trawma sydd mor aml yn nodweddu'u bywydau cyn eu bod yn mynd dan ofal gael effaith ddinistriol ar eu datblygiad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn aml yn barod nac yn alluog i symud yn llwyddiannus i annibyniaeth yn yr oed ifanc hwn. Fodd bynnag, dyma beth rydym yn disgwyl iddynt ei wneud. Maent yn cael eu rhoi ar y llwybr i fethiant.

Mae llawer o ofalwyr maeth wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi'r cyfle i gefnogi pobl ifanc yn hwy, a'u helpu nhw i flodeuo yn hytrach na'u gwylio nhw'n bustachu.

Fe ddisgrifir y pontio hwn yn aml fel “ymyl y dibyn”, pan gollir cymorth emosiynol ac ymarferol cyfarwydd, sefydlog, ac mae pobl ifanc yn wynebu'r byd i raddau helaeth ar eu pen eu hunain. Fe all hyn olygu colli'r ymdeimlad o fod yn rhan o deulu, rhywun i drafod problem gyda nhw neu lawer o fathau eraill o gymorth y mae arnom i gyd ei angen. Mae ar bobl ifanc angen perthnasoedd sefydlog gyda phobl y gallant ymddiried ynddynt, a dyma beth sydd angen newid.



“Roedd o’n ofnadwy. Fe gyrhaeddodd 18 ac fe ddywedwyd wrthym fod yn rhaid iddo adael. Roedd o fel taflu bachgen 13 mlwydd oed ar y clwt i ymdopi drosto’i hun. Ni fyddem yn caniatáu i hynny ddigwydd, na fyddem? Ond dyna fel mae hi i’r bobl ifanc hyn, a rhywsut mae hynny’n cael ei ystyried yn OK.”

Steve, gofalwr maeth, Casnewydd

Mae angen gweithredu brys

Mae yna ddigon o dystiolaeth bod y sawl sy'n gadael gofal yng Nghymru yn aml yn ymladd i gyrraedd eu potential.

Fe wyddomⁱⁱ nad yw bron hanner pobl ifanc 19 mlwydd oed sy'n gadael gofal yng Nghymru mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth nac mewn cysylltiad â'u hawdurdod lleol.

Yn anffodus, rydym hefyd yn gwybod bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn:

► **fwy tebygol o brofi salwch meddwl, yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, anhwylder pryder ôl-drawmatig, iselder ac ymddygiad ymosodolⁱⁱⁱ.**

► **mewn llawer mwy o berygl o ddigartrefedd, tangyflogaeth, a diweithdra^{iv}.**

► **cael eu cynrychioli'n ormodol ymysg poblogaeth carchardai^v.**

► **pedair gwaith yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad pan fyddant yn oedolion^{vi}.**

Mae Action for Children – Gweithredu dros Blant a Rhwydwaith Maethu Cymru yn deall bod yn rhaid inni mewn amseroedd economaidd caled wneud penderfyniadau craff ynglŷn â gwario symiau cyfyngedig o arian.

Yn ogystal â'r achos cymdeithasol a dynol cymhellgar dros newid, mae yna achos economaidd ysgogol ar gyfer buddsoddi yn y sawl sy'n gadael gofal yn awr er mwyn rhwystro rhoi costau cynyddol a dianghenraid ar ysgwyddau cenedlaethau'r dyfodol.

**“Ni ddylai pobl
ifanc orfod
ymladd am y
pethau sylfaenol
mewn bywyd.
Mae’n bechod
bod yn rhaid
iddynt ymddwyn
fel oedolion a
hwythau’n dal yn
blant.”**

“Fe wnes fynd i ofal pan oeddwn i’n 12 mlwydd oed. Roedd yn rhaid imi fynd i ofal oherwydd nad oedd hi’n ddiogel imi aros gartref gyda fy nheulu.

Rhwng yr oedrannau 12 ac 16, roedd gennyf 11 o wahanol gartrefi, gyda rhai’n gartrefi maeth a rhai’n gartrefi plant. Fe fyddwn wedi bod wrth fy modd aros gyda fy nheulu maeth diwethaf, ond nid oeddwn yn gallu gwneud. Roeddwn yn encilgar ac yn hunan-niweidio, ac roeddynt yn cael hynny’n anodd ei reoli er y gwnaethant ymladd i gael y cymorth imi roedd arnaf ei angen. Fe wnaethom ddatblygu cysylltiad, ac fe wnes ddal mewn cysylltiad â nhw ar ôl imi adael eu cartref. Fe awn i ymweld â’r teulu bob hyn a hyn.

Roeddwn yn 17, ac ar fin cyrraedd fy 18fed penblwydd, pan gefais fy lle fy hun. Unigrwydd yw beth rwyf yn ei gofio fwyaf - roedd o mewn fflat islawr yng nghanol tref. Rwyf yn cofio’r noson gyntaf yn fyw; roeddwn i mor oer, unig ac mewn arswyd o’r hyn a ddeuai gyda’r noson. Fe wnes i gloi’r holl ddrysau a ffenestri, ac fe wnes hyd yn oed roi cadair o flaen y drysau dim ond i wneud imi deimlo’n ddiogel. Fe orweddwn o dan y duvet drwy’r nos, yn crynu ac yn wylo, gan feddwl

bod rhywun am ddod i fy mrifo. Fe deimlwn fy mod ar fy mhen fy hun yn gyfan gwbl mewn bywyd.

Pan oeddwn i'n 17 oed, roeddwn yn dda am goginio a glanhau a'r pethau ymarferol. Yn emosiynol, serch hynny, nid oeddwn yn barod i adael a byw ar fy mhen fy hun. Roeddwn i'n hunan-niweidio, yn encilgar ac ni wnawn siarad llawer gyda phobl. Nid wyf yn credu ei bod hi'n iawn gorfodi pobl ifanc yn fy sefyllfa i i fynd i fyw'n annibynnol cyn eu bod yn barod; yn y diwedd maent yn cael eu brifo'n waeth nag y maent yn barod. Ni ddylai pobl ifanc orfod ymladd am y pethau sylfaenol mewn bywyd. Mae'n bechod bod yn rhaid iddynt ymddwyn fel oedolion a hwythau'n dal yn blant.

Bryd hynny, roeddwn yn wirioneddol ddiymgeledd, ac roedd hi'n hawdd manteisio arnaf. Roedd yna un adeg yn ystod yr amser hwn pan wnaeth rhywun a oedd wedi fy mrifo i pan oeddwn yn iau fy mrifo drachefn. Fe deimlwn yn ddigymorth, gan nad oeddwn yn medru amddiffyn fy hun.

Roedd gennyf gwpl o gyfeillion a adawodd ofal yr un adeg â mi, roeddem oll yn dal yn bur ddryslyd ein ffordd.

NID OEDDWN
YN BAROD
I ADAEL A
BYW AR
FY MHEN
FY HUN.
ROEDDWN
YN HUNAN-
NIWEIDIO,
YN ENCILGAR
AC NI
WNAWN
SIARAD
LLAWER
GYDA
PHOBL.



Roeddem i gyd yn unig ac yn ymdrin â bywyd mewn gwahanol ffyrdd. Fe wnaeth cwpl o gyfeillion ymuno â'r fyddin fel ffordd o ddianc, ac rwyf i i fod i dderbyn gofal. Fe wnaeth un arall roeddwn yn wirioneddol agos ato ddechrau ymhél â chyffuriau, alcohol a phuteindra – dyna ei ffordd hi o ymdopi. Bu farw 5 mlynedd yn ôl.

Rwyf wedi treulio'r 10 mlynedd diwethaf yn gwneud yr hyn y medrwn i helpu plant mewn gofal, fel nad oes yn rhaid iddynt fynd drwy'r hyn y gwnes i. Fe helpais i gynnal grŵp cymorth ar gyfer plant mewn gofal, ac rwyf wedi bod yn fentor i berson ifanc oedd yn y system ofal.

Rwyf yn credu'n gryf bod ar blant mewn gofal angen yr amser ychwanegol hwnnw i fod yn barod i fyw'n annibynnol, fel eu bod yn gallu bod yn ddiogel a gwneud y dewisiadau cywir yn y dyfodol.”

03 Yn awr yw'r amser

“mae gennym ni i gyd gyfrifoldeb i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal yn cael y dechreuad gorau posibl mewn bywyd.”

Yng Nghymru, mae gennym gyfle newydd i wella bywydau pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn manteisio ar eu pwerau cyfreithiol presennol i ddarparu'r cyfle i bobl ifanc sy'n gadael gofal aros gyda'u gofalwyr maeth yn hwy, os oes arnynt ei angen. Rydym wedi clywed hanesion cadarnhaol gan bobl ifanc fel D (p 12) sydd wedi medru aros gyda'u gofalwyr maeth yn hwy.

Ond mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'u pwerau. Rydym wedi clywed llawer mwy o hanesion gan bobl ifanc mewn gwahanol ardaloedd o Gymru nad ydynt wedi cael y cyfle hwn. Mae'n ffaith drist nad yw pobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru yn cael cyfleoedd teg.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru ar hyn o bryd yn treialu cynllun o'r enw 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae'r cynllun yn rhoi'r opsiwn i bobl ifanc mewn gofal maeth aros

gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18, os mai dyna'r hyn y mae ar y ddau ei eisiau.

Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae o eisoes yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r nifer fechan o bobl ifanc sy'n elwa o'r treial. Mae arnom eisiau gwneud yn sicr bod y gwaith da hwn yn ymledu a bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol, fel bod yr opsiwn hwn ar gael yn gyson i bob person ifanc sy'n gadael gofal maeth yng Nghymru.

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Fe fydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn newid y gyfraith sy'n effeithio ar wasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys sut mae'r system ofal yn gweithio. Mae Gwenda Thomas, AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, wedi egluro^{viii}:

“mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu'r cefndir i'n bwriad datganedig i wneud mwy dros

blant mewn gofal yng Nghymru. Fel rhieni corfforaethol, mae gennym ni i gyd gyfrifoldeb i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal yn cael y dechreuad gorau posibl mewn bywyd."

Mae Action for Children- Gweithredu dros Blant a Rhwydwaith Maethu Cymru eisiau i'r ddeddf hon ddweud yn eglur y dylai'r sawl sy'n gadael gofal gael y dechreuad gorau posibl mewn bywyd, ac y dylai pobl ifanc sy'n cyrraedd 18 gael yr opsiwn o aros gyda'u gofalcwyr maeth tan eu bod o leiaf yn 21 mlwydd oed.

Yn Lloegr, mae yna gynllun tebyg^{viii} i mewn bodolaeth, ond mae awdurdodau lleol yn medru dewis os a sut maent yn ei weithredu o. Mae ffigurau diweddarix yn dangos nad yw'r cynllun hwn wedi gwneud gwahaniaeth i'r ganran o bobl ifanc sy'n gallu aros gyda'u cyn-falcwyr maeth ar ôl 18.

Rydym yn credu y dylai hyn fod yn hawl gyson y mae pobl

ifanc yn gallu'i defnyddio, ni waeth ble yng Nghymru y maent yn byw. Dyma pam y credwn fod rhwymedigaeth orfodol ar awdurdodau lleol mor bwysig.

Eglurder i bobl ifanc

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym yn aml fod gadael gofal maeth yn amser dryslyd, unig pryd y byddant yn ymlafnio i gael gwybodaeth am eu hawliau i gymorth ac i'w deall nhw. Mae'n bwysig bod pobl ifanc dan ofal yn deall yn union beth mae'r gyfraith yn ei darparu iddynt. Rydym yn credu y bydd dyletswydd gyfreithiol yn rhoi eglurder gwir ei angen i bawb.

Fe fydd yr hawl hwn yn rhoi'r amser y mae arnynt ei angen i bobl ifanc sy'n gadael gofal i wneud dewisiadau cadarnhaol am eu dyfodol, datblygu'r sgiliau ymarferol a'r gwytnwch emosiynol i symud yn llwyddiannus i annibyniaeth. Mae o hefyd yn rhoi cyfle iddynt gynyddu'u cyfrifoldebau dros amser, a datblygu'r sgiliau ar gyflymder sydd yn iawn iddyn' nhw.

Mae gofalwyr maeth yn gwneud gwaith hanfodol, yn darparu amgylcheddau cartref cefnogol lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Drwy ddarparu'r opsiwn i aros gyda gofalwyr maeth cyfarwydd, fe allwn ddarparu lle sy'n fagwraeth i bobl ifanc flodeuo.

“Dydi o ddim mewn gwirionedd yn ymwneud â faint yw fy oed, ond a fyddaf yn iawn ar fy mhen fy hun.”

“Fe ddeuthum i ofal maeth pan oeddwn yn 13 oed. Rwyf wedi bod gyda fy ngofalwyr maeth byth ers hynny. Rwyf ond wedi bod yn yr un lleoliad erioed. Rwyf yn gwybod fy mod yn ffodus, fi yw'r unig un o

blith fy chwiorydd a minnau sydd wedi aros gyda'r un rhieni maeth.

Rwyf wedi gwybod bod arnaf eisiau aros yma y tu hwnt i 18 am flynyddoedd. Fe wnes i bethau twp pan wnes i ddod dan ofal gyntaf, ac fe gefais fy hun mewn helbul gyda'r heddlu. Fe wnaeth fy ngofalwyr maeth barhau efo mi, a dweud eu bod yn dal i fod eisiau fy maethu i. Roeddynt yn gwybod y byddai pethau ond yn gwaethgu pe bae'n rhaid imi symud. Fe wyddwn bryd hynny fod yn rhaid imi newid, a rhoi'r gorau i wneud pethau twp. Os na wnawn i roi'r gorau iddi, fe fyddwn wedi dychwelyd i'r lle y cychwynnais i a mynd i drafferthion gwaeth.

Mae fy ngofalwyr maeth wedi bod yn wirioneddol gefnogol pan oeddwn yn yr ysgol ac yn awr pan wyf yn y coleg. Maent yn fy helpu gyda gwahanol bethau, ac fe allaf ofyn iddyn' nhw am gyngor ynglŷn â'r pethau y mae arnaf eisiau'u gwneud a beth yw fy opsiynau. Rwyf yn talu rhywfaint o fy arian iddynt tuag at rent a bwyd. Rwyf wedyn yn cynilo'r hyn sydd gennyf yn weddill ar gyfer y pethau y mae arnaf eu hangen ac eisiau'u gwneud. Rwyf wedi dechrau coleg eleni, ac rwyf yn gwneud cwrs trwsio cyrff cerbydau. Ar ôl hyn, mae arnaf eisiau gwneud cwrs mecaneg a gwneud popeth yn

RWYF YN
GWYBOD
FY MOD YN
FFODUS,
Y FI YW'R
UNIG UN
O BLITH FY
CHWIORYDD
A MINNAU
SYDD WEDI
AROS
GYDA'R
UN RHENI
MAETH



iawn. Mae arnaf eisiau cael swydd dda mewn modurdy gwerthu ceir, ac fe gaf y cymwysterau i'w wneud o.

Ni wnes i wirioneddol hoffi ysgol; roeddwn yn falch o adael. Ers imi adael, rwyf wedi cael mwy o gymwysterau, ac wedi gwneud ychydig o wahanol gyrsgiau i fy helpu i ddatblygu fy sgiliau. Fe wnes i hyd yn oed gael gwobr yn ystod fy mhrofiad gwaith mewn modurdy lleol.

Pan fyddaf wedi ymsefydlu mewn swydd dda, ac yn gwybod beth rwyf yn ei wneud â mi fy hun, fe symudaf ymlaen i'm lle fy hun. 'Dydi o ddim mewn gwirionedd yn ymwneud â faint yw fy oed, ond a fyddaf yn iawn ar fy mhen fy hun.

Mae ar bobl ifanc mewn gofal maeth angen amser i gael cymwysterau a syniad o'r hyn y mae arnynt eisiau'i wneud. Mae arnynt angen medru rheoli'u harian a'u cynnal eu hunain. Pe baent wedi fy rhoi i yn fy lle fy hun, ni fyddwn wedi ymdopi. Fe fyddwn ar y dŵl, rwy'n credu. Ni fyddwn yn y coleg na dim byd oherwydd na fyddai gennyf neb y tu ôl imi. Fel y mae hi, rwyf ond yn canolbwytio ar fy nghwrs ar hyn o bryd i geisio cael y swydd y mae arnaf ei heisiau."

04 Amser allweddol

75%

Mae 75% o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd yn feichiog yn dweud nad oedd y beichiogrwydd wedi'i gynllunio

Mae'r broses hon o ddatblygiad yr ymennydd yn ystod llencyndod yn allweddol i bob person ifanc. Mae'n neilltuo o allweddol i'r rhai mwyaf diymgeledd nad oes ganddynt gefnogaeth sefydlog, gyfarwydd. Mae adroddiad diweddar gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd* yn amlinellu'r dystiolaeth eglur bod ar bobl ifanc sy'n dynesu at fod yn oedolion angen cyfleoedd i "ymarfer" eu hymenyddiau sy'n datblygu, dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch, ac "amgylcheddau diogel a chefnogol".

Fe fydd caniatáu i'r bobl ifanc hynny mewn gofal maeth sydd â pherthnasoedd cadarnhaol, sefydlog gyda'u teuluoedd maeth aros yno a phontio i oedolaeth gynnar yn caniatáu iddynt fynd drwy'r datblygiad hwn yn gadarnhaol a gyda'r cyfleoedd gorau un.

Y gost ddynol

Yn anffodus, rydym yn gwybod nad yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n gadael gofal maeth yn cael y cyfle hwn ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn eglur: mae yna gost ddynol anferth.

Yn ôl astudiaethau sampl ac ystadegau'r DU:

▶ **Nid oes gan 29% o'r rhai sy'n gadael gofal unrhyw gymwysterau, a dim ond 9% ohonynt sydd wedi llwyddo i ennill 5 TGAU gradd A i C^{xi}.**

▶ **Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn profi lefelau uchel o ddiweithdra, tlodi a digartrefedd^{xii}.**

▶ **Mae bron hanner y bobl ifanc sy'n gadael gofal â salwch meddwl hirdymor^{xiii}.**

▶ **Mae 75% o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd yn feichiog yn dweud nad oedd y beichiogrwydd wedi'i gynllunio^{xiv}.**

▶ **Mae gan 38% o garcharorion ifainc a 23% o garcharorion sy'n**

oedolion yn y DU hanes o fod wedi bod mewn gofal^{xv}.

► Mewn un astudiaeth o'r rheiny sy'n gadael gofal yn y DU ac a adawodd ofal yn 18 neu'n iau, roedd 37% wedi profi ansefydlogrwydd tai, roedd 35% wedi profi digartrefedd, ac roedd y mwyafrif yn byw ar adnoddau ariannol cyfyngedig flwyddyn ar ôl gadael gofal^{xvi}.

Sut y bydd Cyfle i Aros yn gwneud gwahaniaeth?

Ers blynnyddoedd lawer, mae acad-emyddion a'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn gofal wedi dadlau y dylem ganiatáu i'r bobl ifanc hyn aros mewn gofal yn hwy fel bod ganddynt y cyfle i elwa o'r cymorth emosiynol, ariannol ac ymarferol hirfaith sydd gan bobl ifanc sy'n byw gyda'u teuluoedd biolegol.

Mae yna gorff cryf o dystiolaeth sy'n dangos y gall rhoi mwy o amser i bobl ifanc mewn gofal maeth gael buddion sylweddol. Mae codi'r oedran pryd mae pobl ifanc yn gadael gofal maeth:

► yn cael effaith sylweddol, gadarnhaol ar gyrhaeddiad addysgol uwchradd a chwblhau a mynd i mewn i addysg ôl-uwchradd^{xvii}.

► yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yna gamddefnydd dilynol ar alcohol a sylweddau ymysg y sawl sy'n gadael gofal. Mae o hefyd yn lleihau'r defnydd dilynol o wasanaethau iechyd meddwl^{xviii}.

► yn lleihau amledd a nifer yr achosion o feichiogrwydd lluosog ymysg pobl ifanc yn eu harddegau^{xix}.

► yn lleihau amlder deilliannau tramgwyddus, yn cynnwys cael eu harestio a bod mewn carchar^{xx}.

Mae'n rhaid inni fod yn uchelgeisiol ar gyfer y bobl ifanc hyn. Mae'n rhaid inni fod yn ymrwymedig i roi'r offer priodol iddynt gyrraedd eu potensial llawn. Fe fydd rhoi'r cyfle i bobl ifanc mewn gofal maeth aros mewn amgylchedd teuluol diogel yn rhoi'r amser a'r gefnogaeth iddynt y mae arnynt angen i lwyddo.

37%

o bobl sy'n gadael gofal yn y DU wedi profi ansefydlogrwydd tai



Y gost economaidd

Mae rhoi'r cyfle i bobl ifanc mewn gofal maeth aros tan eu bod yn o leiaf yn 21 yn fuddsoddiad cadarnhaol yn eu dyfodol. Mae o'n ddefnydd blaengar a chyfrifol o arian cyhoeddus. Fe wna leihau'r tebygolrwydd o ddeilliannau andwyol difrifol y gwyddom y mae'r sawl sy'n gadael gofal yn eu profi yn awr a chost yr ymateb gan wasanaethau cyhoeddus, megis iechyd a gofal cymdeithasol.

Fe ofynnodd Action for Children-Gweithredu dros Blant i economegwyr o Landman Economics a Virtual Worlds Research fodelu cost cynllun ar gyfer pobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru^{xxi}.

I wneud synnwyr o gostau'r dyfodol, mae'n rhaid inni hefyd ddeall y costau cyfredol. Fe wnaeth Landman Economics a Virtual Worlds Research fapio teithiau dau berson ifanc o ofal maeth i annibyniaeth, yn seiliedig ar ein profiad o weithio gyda phobl ifanc a'r hyn rydym yn ei wybod am eu bywydau ar ôl iddynt adael gofal maeth.

Mae'r diagram hwn yn cymharu cost cefnogaeth ledled gwahanol gyllidebau ar gyfer Megan a Rhys o 16 tan eu bod yn 46. Mae o hefyd yn cymharu'r cyfraniadau y maent yn eu gwneud.

Er bod Megan yn treulio mwy o amser mewn gofal, mae'i chostau


hi'n is. Mae Megan yn gallu cyfrannu fel trethdalwr ac mae ganddi lai o angen am gymorth gan wasanaethau cyhoeddus, megis y gwasanaeth iechyd.

Mae Rhys yn treulio llai o amser mewn gofal; fodd bynnag, mae'i gostau'n uwch. Mae diffyg cymwysterau Rhys wedi golygu ei fod yn cael ei dangyflogi a'i fod mewn swyddi sy'n talu cyflogau isel. Mae o hefyd yn cael cyfnodau o ddiweithdra, ac mae'n methu â chyfrannu cymaint o dreth. Fe gaiff Rhys iselder ailadroddus ac mae arno angen cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos y gallwn ddarparu gwell cefnogaeth i bobl ifanc, a hynny hefyd yn gost-effeithiol. Mae taith.

Rhys dros yr un cyfnod o amser yn costio £131,212 yn fwy na Megan. Fe allwn roi'r cyfle i bobl ifanc aros a llwyddo, ac fe fydd yn arbed arian inni yn y pen draw.

Cymhariaeth: cyfanswm costau i'r wladwriaeth yn ôl cyllideb, a chyfanswm cyfraniad



Megan Rhys

Mae Megan yn aros gyda'i chyn-rieni maeth y tu hwnt i'w 18fed penblwydd. Yn 19, mae Megan wedi cofrestru ar gwrs Gradd ac mae'n parhau i fyw gyda'i chyn-deulu maeth. Mae Megan yn graddio'n 21 oed, ac wedyn mae'n symud allan i'w llety'i hun ac yn dechrau ar swydd. Mae Megan yn gweithio'n gyson drwy gydol ei gyrfa.



Mae Rhys wedi'i seilio ar rywun nad yw'n gallu aros gyda'i gyn-ofalwyr maeth. Mae o'n gadael ei hen gartref maeth yn 18, ac nid yw'n ennill cymwysterau ychwanegol. Mae Rhys yn profi cyflogau isel, cyfnodau o ddiweithdra, ac iselder ailadroddus drwy gydol ei fywyd.

Mae taith Rhys dros yr un cyfnod o amser yn costio £131,212 yn fwy na Megan

Cyfanswm y gost i Gymru

Yn seiliedig ar niferoedd y bobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru, mae Landman Economics a Virtual Worlds Research yn amcangyfrif y bydd cynllun yn costio £1.6 miliwn yn flynyddol. Mae'r ffigwr hwn yn gynrychiadol o nifer y bobl ifanc y rhagamcanir sy'n cymryd rhan mewn cynllun a faint o amser y byddent yn parhau yn yr hen leoliad maeth.

O'r £1.6 miliwn, fe ellir talu £500,000 o'r gost hwn wrth i bobl ifanc hawlio'u hawl i gymorth gyda chost tŷ, a thrwy wneud cyfraniad rhesymol o'u hincwm eu hunain.

Mae hyn yn golygu mai cost y cynllun o gyllidebau Llywodraeth Cymru yw £1.1 miliwn.

Mae hyn yn cyfateb i 0.86% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2013/2014, a ddyrannwyd i gynorthwyo Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

Mae yna achos cymdeithasol ac economaidd cryf dros fuddsoddi yn y rheiny sy'n gadael gofal yn awr. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru' wedi ymrwymo i wariant ataliol:

“Rydym wedi blaenoriaethu gweithgareddau sy'n gwella deilliannau, yn lleihau effaith deilliannau negyddol ar bobl a chymunedau Cymru, ac fe wnaethom hefyd ystyried sut y gallwn ni leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn o weithredu'n tanategu'n holl gynlluniau gwario.” (mis Hydref, 2013)

Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi achlysur penodol inni roi sylw i'r cylch gwario negyddol ac i wneud buddsoddiad arwahanol, penodol ym mhobl ifanc yn awr, fydd yn cael deilliannau cadarnhaol sylweddol iddyn' nhw ac yn gwneud arbedion sylweddol i gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

05 Ein cynigiad

Fe fydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn newid y ddeddf sy'n effeithio ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yn cynnwys sut mae'r system ofal yn gweithio. Mae arnom eisiau i'r ddeddf hon ddweud yn eglur bod gan bobl ifanc sy'n cyrraedd 18 yr opsiwn i aros gyda'u gofalwyr maeth tan eu bod yn o leiaf 21 mlwydd oed, lle mae'r ddwy ochr yn cytuno.

Mae Action for Children-Gweithredu dros Blant a Rhwydwaith Maethu Cymru yn galw ar holl aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r gwelliant a ganlyn i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Gwelliant a awgrymir i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Yn Adran 93, ychwanegwch is-adran newydd 2(a)

93(2)(a) Fe fydd y gefnogaeth a roddir o dan is-adran 1 yn cynnwys parhau â llety gyda chyn-riant maeth awdurdod lleol, oni bai:

bod y person ifanc categori 3 yn datgan nad yw ef neu hi'n dymuno parhau i breswyllo yn y cyfryw lety, neu
nad yw cyn-riant maeth awdurdod lleol yn dymuno parhau i ddarparu llety, neu
nad yw'n rhesymol ymarferol i drefnu'r cyfryw lety.

(2) Mae 'Cyn-riant maeth awdurdod lleol' yn golygu rhiant maeth awdurdod lleol o fewn ystyr adran 65 (6) (a) neu (b) gyda phwy y cafodd y cyn-blentyn perthnasol, fel plentyn sy'n derbyn gofal, ei leoli o dan adran 65 (6)(a) neu (b).

Os hoffech ganfod mwy am yr ymgyrch neu helpu i ddarbwyllo Llywodraeth Cymru i newid y gyfraith:

www.actionforchildren.org.uk/chancetostay

neu www.fostering.net/wales/chancetostay



Ynglŷn ag Action for Children – Gweithredu dros Blant

Mae Action for Children-Gweithredu dros Blant yn elusen sy'n cefnogi ac yn eiriol ar ran y plant a'r bobl ifanc mwyaf diymgeledd ac sydd wedi'u hesgeuluso yng nghraidd cymunedau drwy Gymru i gyd. Gyda mwy na 100 o wasanaethau yng Nghymru, rydym lle rydych chi'n byw ac yn gweithio.

Rydym yn helpu miloedd o blant a phobl ifanc i weddnewid eu bywydau bob blwyddyn, ac rydym wedi bod yn gwneud hynny ers dros 100 mlynedd. Mae'r plant a'r bobl ifanc rydym yn eu cynorthwyo yn wynebu'r problemau caletaf mewn bywyd.

Drwy gefnogi Action for Children - Gweithredu dros Blant, rydych yn ysbrydoli gobaith yn y miloedd o blant a phobl ifanc diymgeledd rydym yn eu helpu.

Action for Children - Gweithredu dros Blant

Llys Dewi Sant
68, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
Caerdydd
CF11 9DN
Ffôn: 029 2022 2127

Action for Children - Gweithredu dros Blant wedi ymrwymo i helpu'r plant a'r bobl ifanc mwyaf diymgeledd ac sydd wedi'u hesgeuluso fwyaf yn y DU i oresgyn anghyfiawnder, amddifadedd ac anghydraddoldeb, fel eu bod yn gallu cyflawni'u potensial llawn.

actionforchildren.org.uk

Rhowch rodd yn:
myactionforchildren.org.uk

Elusen gofrestedig: 1097940/
Rhif y Cwmni: 4764232

Cynhyrchwyd gan Gweithredu
dros Blant 10/2013 13/14 0184



actionforchildren



aslongasittakes (#cyfleiaros)



actionforchildrenuk

rhwydwaith maethu
llais gofal maeth
the fostering network
the voice of foster care



Ynglŷn â Rhwydwaith Maethu Cymru

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen y DU ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â gofal maeth, ac mae'n bodoli i wneud bywyd yn well i blant sydd wedi'u maethu a'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt.

Fel sefydliad aelodaeth a llais gofal maeth yn y Deyrnas Unedig, rydym yn cynrychioli dros 5,000 o ofalwyr maeth a mwy na 40 o wasanaethau maethu yng Nghymru.

Rydym yn gweithio gyda'n haelodau i ymgychu ac i lobio i ddylanwadu ar bolisiau cenedlaethol a lleol, ac rydym yn darparu ystod o wasanaethau a chefnogaeth fel y gall gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu ddarparu'r gofal gorau posibl i blant sydd wedi'u maethu.

Rhwydwaith Maethu Cymru

Un Pentir Caspian,
Stryd Pier Head,
Bae Caerdydd
CF10 4DQ
Ffion: 029 2044 0940
e: wales@fostering.net www.fostering.net

www.fostering.net

Rhowch rodd yn:
fostering.net/support-us/donate

Rhwydwaith Maethu Cofrestrwyd
yn gwmni cyfygedig rhif 1507277
yn Loegr a Chymru

Elusen gofrestredig rhif 280852
Rhif cofrestru TAW 231 6335
90 Swyddfa gofrestredig 87
Blackfriars Road Llundain SE1 8HA



thefosteringnetwork



@fosteringnet

ⁱEurostat (2009) Youth In Europe: A Statistical Portrait. Mae data'r UE o 2007 yn gosod oed cyfartalog gadael cartref y rhieni ar gyfer pobl ifanc yn y DU yn oddeutu 24, gyda merched ar gyfartaledd yn gadael ychydig yng nghynt na dynion.

ⁱⁱLlywodraeth Cymru (2013) Adoptions, outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities, Cymru, 2012-13.

ⁱⁱⁱRees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.

^{iv}Ibid

^vOgden J. (1992). Set up to fail. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{vi}Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol (2013) 'I never left care, Care left me': ensuring good corporate parenting into adulthood.

^{vii}Gwenda Thomas (2013) Datganiad Ysgrifenedig – Diweddariad ynghylch cynllun arfaethedig i ganiatau i bobl ifanc arnos gyda Gofalwyr Maeth y tu hwnt i 18 oed. Ar gael ar-lein: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/fostercarers/?lang=en> [Cyrchwyd 14 Tachwedd 2013]

^{viii}Llywodraeth Ei Mawrhydi (2013) 'Staying Put' arrangements for Care leavers aged 18 and above to stay on with their former foster carers.' Canllawiau'r Adran Addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

^{ix}Yr Adran Addysg (2013) Children looked after in England, including adoption, Ar gael ar-lein: <https://www.gov.uk/government/publications/children-looked-after-in-england-including-adoption> [Cyrchwyd 15 Tachwedd 2013]

^xRees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.

^{xi}Ystadegau Cymru SDR 163/2013. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xii}Cheung, S. Y., & Heath, A. (1994). After care: The education and occupation of adults who have been in care. Biehal, N., Clayden, J., Stein, M., & Wade, J. (1995). Moving on: Young people and leaving care schemes. Vernon, J (2000) Small Private Children's Homes. Unpublished research report

NCH. (2000). Factfile 2001. Facts and figures about children in the UK.

Stein, M and Wade, J (1999) Helping Care Leavers: Problems and Strategic Responses. (All cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xiii}Saunders, L. & Broad, B. (1997) The Health Needs of Young People Leaving Care.

^{xiv}Chase, E., Maxwell, C., Knight, A., & Aggleton, P. (2006). Pregnancy and Parenthood among Young People In and Leaving Care: What Are the Influencing Factors, and What

Makes a Difference in Providing Support? (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xv}Ogden J. (1992). Set up to fail. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xvi}Dixon, J. (2008). Young people leaving care: health, well-being and outcomes. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xvii}Courtney, M. E., & Dworsky, A. (2006). Early outcomes for young adults transitioning from out-of-home care in the USA. Courtney, M. E., Dworsky, A., & Pollack, H. (2007). When should the state cease parenting? Evidence from the Midwest Study. Courtney, M. E., Dworsky, A., Lee, J. S., & Raap, M. (2010). Midwest evaluation of the adult functioning of former foster youth: Outcomes at age 23 & 24. (All cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xviii}Courtney, M. E., & Dworsky, A. (2006). Early outcomes for young adults transitioning from out-of-home care in the USA. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xix}Courtney, M. E., & Dworsky, A. (2006). Early outcomes for young adults transitioning from out-of-home care in the USA. Dworsky, A., & Courtney, M. E. (2009). Homelessness and the transition from foster care to adulthood. Child Welfare, 88 (4), 23. (All cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xx}Courtney, M. E., & Dworsky, A. (2006). Early outcomes for young adults transitioning from out-of-home care in the USA. (Cited in Rees, P., Holland, S. & Forbes, N. (2013) Outcomes for Young People Leaving Foster Care: A literature and data review on the effects of age of exit – Interim Report.)

^{xxi}Landman Economics a Virtual Worlds Research (2013) Costing the When I am Ready scheme.

^{xxii}Ibid

^{xxiii}Llywodraeth Cymru (2013) Cyllideb Ddrafft 2014-15. Ar gael ar-lein: <http://wales.gov.uk/funding/budget/draftbudget1415/?lang=en> [Cyrchwyd 14 Tachwedd 2013]

O dan gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol, y dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Plant am 2013/14 oedd £10,317,000. O dan gyllideb Cymunedau a Threchu Tlodi, y dyraniad ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoddd oedd £117,538,000 yn 2013/14. Y cyfanswm gyda'i gilydd yw £127,855,000. Y cyfanswm gyda'i gilydd yw £127,855,000.

^{xxiv}Llywodraeth Cymru (2013) Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-15 Blaenoriaethau i Gymru. Ar gael ar-lein <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/131008draftbudgetnarrative1415.pdf> [Cyrchwyd 14 Tachwedd 2013]